# Esboniad ar ddyddiadau Defnyddiwch Erbyn ac Ar Ei Orau Cyn

Mae'r wybodaeth am nodi dyddiadau defnyddio wedi ei datgan o dan Reoliadau Labelu Bwyd 1996

**Ar bwy mae'r gofynion yn effeithio?**

Unrhyw un sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu bwyd wedi ei becynnu.

**Pa wybodaeth sydd ei hangen?**

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o fwydydd sydd wedi eu pacio ymlaen llaw gario dyddiad ar gyfer pryd dylid defnyddio'r bwyd. Gall hyn fod naill ai yn ddyddiad 'Ar Ei Orau Cyn' neu 'Defnyddio Erbyn'. Mae'n rhaid i'r marc dyddiad yma fod mewn lle amlwg ar y label, os yw hyn yn anodd, rhaid i'r gwneuthurwr ddatgan lle gellir canfod y dyddiad, er enghraifft 'Ar Ei Orau Cyn: gweler y dyddiad ar y caead'.

**Defnyddiwch Erbyn**

- Rhaid defnyddio dyddiad Defnyddiwch Erbyn ar gyfer bwyd sy'n ddarfodus iawn ac sy'n debygol ar ôl cyfnod byr o ddod yn berygl uniongyrchol i iechyd dynol, esiamplau o hyn yw cig wedi ei goginio a rhai prydau parod

- Mae dyddiadau Defnyddiwch Erbyn yn cynnwys naill ai dydd a mis neu diwrnod, mis a blwyddyn. Er enghraifft Defnyddiwch Erbyn 20 Tachwedd neu Defnyddiwch Erbyn 20 Tachwedd, 2005.

- Mae'n **drosedd** gwerthu neu arddangos i'w werthu unrhyw fwyd ar ôl y dyddiad Defnyddiwch Erbyn.

**Ar ei orau cyn**

- Mae'n rhaid i fwydydd sydd ag oes silff hirach gael eu labelu â dyddiad Ar Ei Orau Cyn.
- Y dyddiad Ar Ei Orau Cyn yw'r dyddiad hyd at a chan gynnwys y dyddiad y dylai'r bwyd aros ar ei gyflwr gorau, ar yr amod ei fod wedi cael ei storio'n briodol.
- Mae dyddiadau Ar Ei Orau Cyn yn cynnwys y diwrnod, y mis a'r flwyddyn, er enghraifft Ar Ei Orau Cyn 20 Tachwedd 2005.
- Efallai y bydd bwyd y gellir disgwyl iddo gadw am 3 mis neu lai yn cael ei farcio gyda dydd a mis yn unig, e.e. Ar Ei Orau Cyn 20 Tachwedd.
- Efallai y bydd bwyd y gellir disgwyl iddo gadw am fwy na 3 mis gael ei farcio â mis a blwyddyn yn unig ac y bydd bwyd a fydd yn cadw am

18 mis yn cael ei farcio â blwyddyn yn unig, e.e. Ar Ei Orau Cyn diwedd Tachwedd 2005 neu Ar Ei Orau Cyn diwedd 2005.

**Beth am fwyd a werthir ar ôl y dyddiad Ar Ei Orau Cyn?**

- Mae'n **drosedd** gwerthu bwyd ar ôl ei ddyddiad Defnyddiwch Erbyn ond gellir gwerthu bwyd ar ôl ei ddyddiad Ar Ei Orau Cyn ar yr amod ei fod yn dal i fod o ansawdd boddhaol a bod y dyddiad Ar Ei Orau Cyn yn dal i fod yn weladwy.

- Drwy werthu bwyd ar ôl y dyddiad Ar Ei Orau Cyn, mae'r gwerthwr yn cymryd cyfrifoldeb am ansawdd y bwyd ac felly fe all gyflawni trosedd os nad yw'r bwyd o'r ansawdd y mae'r cwsmer yn ei ddisgwyl.

**Beth am amodau storio?**

- yn ogystal â dyddiad Defnyddiwch Erbyn neu Ar Ei Orau Cyn, rhaid labelu bwydydd ag unrhyw amodau storio a dylid glynu at yr amodau hynny.

**Pwy sy'n gyfrifol am farcio'r dyddiad?**

- rhaid i'r person sy'n gwerthu bwyd wedi'i becynnu gyntaf o fewn yr Undeb

Ewropeaidd ei labelu gyda'r dyddiad Defnyddiwch Erbyn neu Ar Ei Orau Cyn.

- Mae'n drosedd i bersonau anawdurdodedig i newid marciau dyddiad.

Gwneuthurwyr bwyd yw'r unig rai a awdurdodir i wneud hynny.

**Eithriadau i Ddyddiadau Bwyd**

Nid oes rhaid i rai bwydydd penodol gael eu marcio â dyddiad 'defnyddio erbyn' neu ddyddiad 'Ar Ei Orau Cyn'. Y rhain yw:

- ffrwythau a llysiau ffres nad ydynt wedi eu plicio neu eu torri'n ddarnau (rhaid i hadau blaguro a chynhyrchion tebyg gael eu marcio â dyddiad).
- gwin, gwin gwirod, gwin pefriog, gwin wedi'i bersawru a chynnyrch tebyg.
- unrhyw ddiod â chryfder alcoholig yn ôl cyfaint o 10 y cant neu fwy.
- unrhyw ddiod meddal, sudd ffrwythau neu neithdar ffrwythau neu ddiod alcoholig, a werthir mewn cynhwysydd o 5 litr neu fwy a fwriedir i'w gyflenwi i sefydliadau arlwyo.
- bwydydd blawd a bara a fydd fel arfer yn cael eu bwyta o fewn 24 awr i'w paratoi.

- finegr
- halen coginio a halen bwrdd.
- siwgr solid a chynnyrch siwgr gyda lliw neu blas wedi ei ychwanegu
- gwm cnoi a chynnyrch tebyg.
- dognau unigol o iâ bwytadwy.

**Wyau**

Mae rhai rheolau penodol sy'n berthnasol i wyau yn unig. Rhaid i wyau gael eu marcio â dyddiad 'Ar Ei Orau Cyn'. Gall y dyddiad hwn fod hyd at uchafswm o 28 diwrnod ar ôl i'r wyau gael eu dodwy. Rhaid i wyau gael eu gwerthu i'r defnyddiwr o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r wyau gael eu dodwy; mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu gwerthu 7 diwrnod cyn i'r dyddiad 'Ar Ei Orau Cyn' ddod i ben.

Er enghraifft, mae'n rhaid gwerthu wyau wedi eu marcio 'Ar Ei Orau Cyn 22 Mawrth' erbyn 15 Mawrth. Mae'n drosedd cyflenwi wyau os oes llai na 7 diwrnod cyn i'r dyddiad 'Ar Ei Orau Cyn' ddod i ben.

**Nid yw'r daflen hon yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith ac fe'i bwriadwyd fel canllaw yn unig. Dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth am wybodaeth fanylach.**